# Ordinhad 15:

# Y Cyngor: Pwyllgorau

| | |
|---|---|
| **Corff Cymeradwyo:** | Y Cyngor |
| **Dyddiad Cymeradwyo:** | 24 Ebrill, 2020 |
| **Newid:** | 28 Ionawr 2022 |
| **Perchennog y Polisi:** | Ysgrifennydd y Brifysgol |
| **Swyddog Polisi:** | Dirprwy Ysgrifennydd |
| **Statws y Polisi:** | Newydd |
| **Fersiwn:** | 2.0 |
| **Dyddiad adolygu:** | Ionawr 2025 |

## Ordinhad 15:
## Y Cyngor: Pwyllgorau

1. Mae gan y Cyngor o dan y Siarter, Adran 7, y pŵer i ddarparu ar gyfer sefydlu Pwyllgorau i gynnwys cynrychiolwyr y Cyngor ac unrhyw rai eraill y bydd y Cyngor yn penderfynu arnynt ac i bennu'r dull penodi a swyddogaethau'r Pwyllgorau hynny.

2. Bydd Pwyllgorau'r Cyngor fel isod. Caiff yr aelodau eu penodi gan y Cyngor, a hynny fel arfer trwy argymhelliad y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu. Bydd yr aelodau'n gwasanaethu am 3 blynedd a gellir eu hailbenodi ar yr amod eu bod yn parhau i fod yn aelodau o'r Cyngor, oni bai bod hyn wedi'i eithrio yn benodol yng nghyfansoddiad y Pwyllgor.

3. Bydd gan bob Pwyllgor Gadeirydd a benodir gan y Cyngor am gyfnod penodol. Penodir Ysgrifennydd pob Pwyllgor gan Ysgrifennydd y Brifysgol.

4. Rhaid cyflwyno cofnodion pob cyfarfod gerbron y Cyngor.

5. Oni fydd y Cyngor yn gorchymyn yn wahanol, tri fydd cworwm pwyllgor o bum aelod neu fwy, a dau fydd cworwm pwyllgor o lai na phum aelod.

6. Bydd gan bob pwyllgor y pŵer i gyfethol hyd at dri unigolyn nad ydyny yn aelodau o'r Cyngor ac nad oes angen iddynt o reidrwydd fod yn aelodau o'r Brifysgol i wasanaethu ar y Pwyllgor am gyfnod o dair blynedd. Ar ddiwedd y cyfnod hwnnw, caniateir cyfethol am un cyfnod pellach o dair blynedd.

7. Bydd aelodaeth a Chylch Gorchwyl y Pwyllgorau fel y pennir gan y Cyngor.

8. Bydd pwyllgorau sefydlog y Cyngor fel a ganlyn:

   (a) Pwyllgor Cyllid a Strategaeth
   (b) Pwyllgor Archwilio a Risg
   (c) Pwyllgor Iechyd a Diogelwch
   (d) Pwyllgor Materion y Gymraeg
   (e) Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu,
   (f) Pwyllgor Pobl a Diwylliant (gan gynnwys y Pwyllgor Taliadau a'r Pwyllgor Diswyddiadau

9. Gweithdrefn uwch gyfeirio at y Cyngor

   Rhaid i bob pwyllgor sefydlog o'r Cyngor sicrhau bod y cofnodion ffurfiol a gyflwynir i'r Cyngor yn cynnwys adran sy'n amlygu'r materion hynny a drafodwyd yn y cyfarfod y mae'r Pwyllgor angen eu dwyn i sylw'r Cyngor.